Rhif: WG30842

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gwasanaeth Gofal Llygaid Disgyblion Ysgol
# Adroddiad Coladu

Ionawr 2017

© Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-8492-4

## Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd cynnig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar 8 Chwefror 2016 i gynnig profion llygaid i blant sy'n mynychu ysgolion arbennig yng Nghymru.

2. Roedd cytundeb cyffredinol â'r nodau a'r amcanion a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Cyflwynodd ymgyngoreion bwyntiau ar gyfer datblygu a newid y gwasanaeth a ddarperid.

## Atebion

3. Derbyniwyd cyfanswm o 36 o atebion. Cafodd yr holl sylwadau yn yr atebion eu cofnodi’n unigol i ganiatáu hidlo yn ôl rhif ateb, rhif y cwestiwn neu thema. Roedd yr atebion yn cynrychioli grwpiau a sefydliadau fel a ganlyn:

- Byrddau Iechyd Lleol
- Cynghorau Iechyd Cymunedol
- RNIB Cymru
- SNAP Cymru
- Optometryddion Arweiniol
- Offthalmolegwyr Arweiniol
- Darparwyr Addysg
- Defnyddwyr gwasanaeth
- Grwpiau Cydweithredol Gofal Iechyd Llygaid Lleol Cymru
- Pwyllgorau Gofal Llygaid Lleol

## Cwestiynau a Themâu Allweddol

4. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i’r ymgyngoreion:

- **Cwestiwn 1:** Ydych chi’n teimlo bod hwn yn wasanaeth y mae ar ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig yng Nghymru ei angen?
- **Cwestiwn 2:** Ellwch chi awgrymu unrhyw fodelau gwahanol ar gyfer cyfarfod ag anghenion y plant hyn?
- **Cwestiwn 3:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu syniadau am sut y gellid gwella’r gwasanaeth arfaethedig?
- **Cwestiwn 4:** Ydych chi’n rhagweld unrhyw broblemau o ran y gwasanaeth a gynigir?
- **Cwestiwn 5:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y broses o gasglu cydsyniad ar gyfer yr archwiliadau llygaid?
- **Cwestiwn 6:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

5. Dadansoddwyd yr atebion i'r cwestiynau a'u grwpio yn ôl y themâu allweddol canlynol (lle y dangosai ymgyngoreion lefel uchel o gysondeb) a'u crynhoi isod.

## a. Nodau'r Gwasanaeth

**Cwestiynau perthnasol:**

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n teimlo bod hwn yn wasanaeth y mae ar ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig yng Nghymru ei angen?

6. Roedd consenswS cryf o'r farn fod hwn yn wasanaeth gwerth chweil fyddai'n darparu ar gyfer anghenion plant mewn ysgolion arbennig. Cytunai'r mwyafrif o'r ymgyngoreion y ceir mwy o achosion o nam ar y golwg ymysg disgyblion ag anableddau dysgu a bod y disgyblion hyn, heb driniaeth neu sbectol briodol, o dan anfantais yn eu haddysg a'u datblygiad cymdeithasol. Roedd cytundeb cryf hefyd â'r cynnig i ddod â gweithwyr iechyd proffesiynol i mewn i'r ysgol, lle mae'r disgyblion eisoes yn gyfarwydd â'r staff a'r amgylchedd, er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'r prawf llygaid ac i'r driniaeth.

7. Un farn amlwg oedd nad oedd y cynnig yn mynd yn ddigon pell ac y dylid cynnig yr un gwasanaeth mewn unedau arbennig o fewn ysgolion prif lif (gan gynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref o ddewis, a phlant sy'n cael eu 'haddysg yn rhywle heblaw yn yr ysgol').

## b. Model Gwasanaeth

**Cwestiynau perthnasol:**

**Cwestiwn 2:** Ellwch chi awgrymu unrhyw fodelau gwahanol ar gyfer cyfarfod ag anghenion y plant hyn?
**Cwestiwn 3:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu syniadau sut y gellid gwella'r gwasanaeth arfaethedig?

8. Roedd cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r model a gynigid ar gyfer y gwasanaeth. Awgrymodd un ymgynghorai y dylid bod Timau Offthalmig lleol neilltuol. Roedd rhai ymgyngoreion hefyd yn meddwl y dylid gosod y cyfrifoldeb ar yr Orthoptydd i arwain y gwasanaeth. Ar gyfer atgyfeirio ymlaen, gwnaed yr awgrym bod angen i optometryddion weithio'n agos gyda'r sectorau iechyd a'u hybu hwy eu hunain fel darparwyr gofal llygaid sylfaenol a bod angen i'r sector iechyd hefyd groesawu optometryddion fel darparwyr gofal llygaid, h.y. bod angen cydweithrediad agos gyda meddygon teulu

9. Dywedodd rhai ymgyngoreion fod gan rai byrddau iechyd systemau profi llygaid sefydledig y gellid eu hehangu a'u haddasu yn hawdd i gynnwys yr holl blant oedd ag anghenion dysgu ychwanegol.

10. Cafwyd hefyd yr awgrym i sefydlu canolfannau rhagoriaeth mewn gofal llygaid yn lleol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu mewn Canolfannau Diagnostig a Thriniaeth Offthalmig, gyda gwasanaethau'n cael eu darparu gan optometryddion, orthoptwyr, nyrsys offthalmig ac offthalmolegwyr fel bo angen ar draws y rhyngwyneb gofal sylfaenol/eilaidd.

11. Dywedai rhai ymgyngoreion nad oedd yr ymgynghoriad yn trafod yr angen am sbectol sbâr a gwaith trwsio mynych ymysg y grŵp arbennig hwn o blant.

12. Dywedodd un ymgynghorai y dylid hysbysebu rhestr o optometryddion addas gyda mynediad i gadeiriau olwyn ac y dylent gynnig rhyw fath o achrediad neu brofiad. Roedd yr ymateb hwn yn mynegi pryder nad oedd y gwasanaeth yn ymdrin ond â nam plygiannol a darparu sbectol. Roedd yn dadlau nad oedd hwn yn 'wasanaeth offthalmig ysgol' gan nad oedd yn darparu'r gofal llygaid cynhwysfawr sydd ei angen ar gyfer y plant hyn yn amgylchedd yr ysgol. Aeth ymlaen i ddweud bod risg o ailgynnal yr un profion, gan fod llawer o'r plant (ond nid pob un) yn debygol o fod o dan ofal clinigau llygaid mewn ysbyty neu fod wedi derbyn gofal ac wedi eu rhyddhau i ofal eu hoptometrydd eu hunain.

13. Awgrymai rhai o'r ymgyngoreion y dylid sefydlu model gwahanol fyddai'n cynnwys tri thîm, yng Ngogledd, Gorllewin a De Cymru. Byddai pob tîm yn gyfrifol am brofi'r plant yn yr Ysgolion Arbennig ar gyfer y rhanbarth. Yn unol â hynny, gellid cyfeirio plant oedd angen gwasanaethau llygaid ysbyty, ond nad oeddent eisoes o dan offthalmolegydd, i ganolfan leol. Dywedodd un arall nad oedd y tîm offthalmig oedd wedi ei ddisgrifio yn dîm offthalmig, gan nad oedd yn cynnwys offthalmolegwyr yn y tîm craidd diffiniedig. Roedd un ymateb yn datgan bod hyn yn gamarweiniol ac yn rhoi'r argraff anghywir i'r cyhoedd gan nad oedd modd darparu yr holl ofal offthalmig mewn lleoliad ysgol.

14. Roedd un ymgynghorai yn datgan bod y model gwasanaeth arfaethedig yn tanamcangyfrif y gwaith dan sylw. Mae'n cymryd llawer mwy o amser i asesu plant ag anghenion arbennig o gymharu â phlant yn dilyn datblygiad arferol. Mae hefyd yn cymryd llawer o amser i gael y plant o'u hystafell ddosbarth i'r ystafell brofi, y plant sy'n medru symud yn ogystal â'r rhai sydd â cymhorthion symudedd. Roedd angen i'r gwasanaeth arfaethedig gymryd hyn i ystyriaeth. Roedd y lefelau staffio arfaethedig hefyd yn annigonol. Roedd yn datgan y byddai angen o leiaf dau gynorthwyydd yn ychwanegol at yr optometrydd, yr optegydd fyddai'n cyflenwi a'r orthoptydd.

15. Un pwynt allweddol a godwyd oedd amlder yr ymweliadau gwasanaeth fyddai eu hangen, yn enwedig ar gyfer plant oedd angen

profion mynych oherwydd rhychwant sylw byr neu gyflyrau llygaid oedd yn datblygu, e.e. ceratoconws.

16. Pwynt amlwg a wnaed oedd y dylai system cofnodion cleifion electronig fod wedi ei sefydlu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a chymorth i'w gael gydag atgyfeiriadau, argraffu ffurflenni ac archebu sbectol.

17. Codwyd pryderon hefyd ynghylch cadernid y broses o lywodraethu ac archwilio safonau'r cynllun arfaethedig yn ogystal â'r broses ar gyfer atgyfeirio parhaus.

**c. Gweithlu a Hyfforddiant**

**Cwestiynau perthnasol:**

**Cwestiwn 3:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu syniadau am sut y gellid gwella'r gwasanaeth arfaethedig?
**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau o ran y gwasanaeth a gynigir?

18. Cyfeiriai nifer o'r atebion at yr angen am fwy o eglurder ynghylch y broses recriwtio ar gyfer y Tîm Offthalmig. Roedd yr ymgyngoreion yn pwysleisio'r angen i'r rhai oedd eisiau bod yn rhan o'r Timau Offthalmig fod yn meddu ar y sgiliau cywir i weithio yn yr amgylchedd hwn ac yn deall anghenion penodol y grŵp hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgyngoreion o blaid y cynigion bod rhaid i optometryddion fod wedi cael eu hachredu i ddarparu Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn ogystal â chwblhau hyfforddiant pellach fel y cynigir yn yr ymgynghoriad hwn.

19. Dywedai un ymgynghorai y byddai angen i aelodau'r Tîm Offthalmig ddod yn gyfarwydd â thechnegau profi gwahanol ar gyfer myfyrwyr oedd ag anawsterau cyfathrebu a disgyblion oedd yn gweithio ar lefelau datblygu isel iawn (e.e. profion sy'n ymwneud â gwrthrychau gwirioneddol, STYCAR, symbolau, iaith arwyddion ac yn y blaen). Dylai darpariaeth mewn ysgol gynnig tîm ymroddedig o orthoptwyr, optometryddion ac offthalmolegwyr, oedd yn gweithio'n agos â'i gilydd yn amgylchedd yr ysgol ac a oedd yn meddu ar y profiad a'r sgiliau angenrheidiol oedd eu hangen i asesu plant ag anghenion cymhleth. Dywedai un ymgynghorai, lle y dangosid capasiti a defnydd digonol, yna efallai na fyddai darpariaeth arbennig o fewn ardal ysgol o werth. Awgrymai gynnal arolwg o bob ymarferydd yng Nghymru, oedd ar hyn o bryd yn gweld nifer uwch na'r cyfartaledd o blant ag anawsterau dysgu, er mwyn canfod faint o allu oedd yna i ddarparu'r math hwn o ofal mewn ardaloedd arbennig.

20. Dywedai un ymgynghorai fod y model arfaethedig yn gosod gormod o faich ar y byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau orthoptig fel rhan

o'r gwasanaeth. Aeth ymlaen i ddatgan bod y model hwn yn rhy gostus i'r gwasanaethau orthoptig presennol oedd eisoes o dan bwysau.

21. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y modd y câi'r gwasanaeth ei reoli a'i weinyddu. Mynegodd rhai ymgyngoreion yr angen i sicrhau bod byrddau iechyd yn gallu recriwtio a darparu'r lefel ofynnol o wasanaeth.

22. Gofynnwyd hefyd sut y byddai modd cyllido hyfforddiant yn barhaus ar gyfer yr optometryddion a'r optegwyr fyddai'n darparu'r gwasanaeth hwn. Gofynnodd un ymgynghorai hefyd a ddylai optegwyr oedd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth hwn fod wedi eu hachredu ar gyfer golwg isel. Credai na ddylai hyn fod yn rhagofyniad ar gyfer cymryd rhan.

23. Pryder arall oedd nad oedd effaith yr atgyfeiriadau i wasanaethau llygaid mewn ysbyty wedi ei asesu. Byddai angen ailwerthuso gofynion gweithlu'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod digon o glinigwyr wedi cael eu hyfforddi i ymgymryd â'r gwasanaeth ychwanegol arfaethedig.

**ch. Cydsyniad**

**Cwestiynau perthnasol:**

**Cwestiwn 5:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y broses o gasglu cydsyniad ar gyfer yr archwiliadau llygaid?

24. Roedd peth cytundeb ynglŷn â'r cynnig i symud ymlaen gyda chydsyniad i optio i mewn. Fodd bynnag, roedd rhai ymgyngoreion yn teimlo y gellid gwella'r gwasanaeth drwy weithredu proses gydsynio i optio allan yn hytrach na'r broses arfaethedig o optio i mewn. Teimlent mai drwy gydsyniad i optio allan y gallai'r nifer fwyaf o blant ag anghenion ychwanegol ddefnyddio'r gwasanaeth.

25. Gwnaed y pwynt gan un ymgynghorai y dylai rhieni gael y dewis i barhau gyda'u darparwr gofal iechyd llygaid presennol ac y dylai rhiant / gwarcheidwad dderbyn gwybodaeth glir am yr archwiliad llygaid y byddai eu plentyn yn ei gael, beth yr oeddent yn cydsynio iddo a sut y gallai hyn fod yn wahanol i'r gofal llygaid yr oedd eu plentyn eisoes yn ei dderbyn.

26. Dywedodd un ymgynghorai hefyd y dylid annog y rhiant/gwarcheidwad i fod yn bresennol ar gyfer yr apwyntiad er mwyn trafod canlyniad yr archwiliad.

27. Roedd hefyd yn gwneud y pwynt nad oedd yn glir ble y byddai'r cydsynio yn cael ei gynnal a phwy fyddai'n gyfrifol am ei gasglu. Aeth ymlaen i ofyn beth fyddai'n digwydd yn achos plentyn oedd heb gael

cydsyniad a phwy fyddai’n gyfrifol am sicrhau nad oedd y plentyn mewn perygl?

**d. Cyllid**

**Cwestiynau perthnasol:**

**Cwestiwn 4:** Ydych chi’n rhagweld unrhyw broblemau o ran y gwasanaeth a gynigir?

28. Roedd rhai pryderon bod diffyg eglurder ynghylch sut y telid am y gwasanaeth, yn arbennig am yr orthoptwyr fyddai’n ysgwyddo'r llwyth gwaith ychwanegol angenrheidiol, ac o ble y deuai'r arian ar gyfer pecyn hyfforddi’r Tîm Offthalmig.

29. Roedd pryder ynghylch cyllid ar gyfer yr offer priodol i ddarparu'r gwasanaeth.

30. Ceid rhai pryderon hefyd ynghylch cynaladwyedd y gwasanaeth a phryderon y byddai’r gost yn cael ei thalu drwy gwtogi ar feysydd eraill.

**dd. Gofynion iaith**

**Cwestiynau perthnasol:**

**Cwestiwn 6:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

31. Cyfeiriodd rhai ymgyngoreion at faterion y Gymraeg a hoffent weld y gwasanaeth yn cael ei gynnig yn Gymraeg i'r disgyblion hynny oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

32. Cyfeiriodd un ymgynghorai at ddogfen Fy Iaith, Fy Iechyd, Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol.

33. Gofynnodd un ymgynghorai hefyd a oedd unrhyw waith wedi cael ei wneud i weld beth oedd nifer y siaradwyr Cymraeg oedd yn gleifion yn yr ysgolion arbennig hyn?

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

34. Y mater mwyaf amlwg a godwyd oedd yr angen i ddarparu'r gwasanaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol oedd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif lif. Rydym yn cynnig model diwygiedig a fydd yn galluogi pob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn mynychu ysgolion arbennig, i gael profion golwg blynyddol mewn lleoliad ysgol.

35. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar hyn o bryd ar amrywiol ffyrdd o ariannu'r gwasanaeth.

36. Cynigir bod un Bwrdd Iechyd yn cynnal y gwasanaeth yn yr un modd â Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru.

37. Canolfan Ôl-raddedig Optometreg Cymru fydd yn ymdrin ag anghenion hyfforddiant optometryddion.

38. O ran staffio, cynigir y bydd optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn cael eu cyflogi fesul diwrnod drwy'r Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru presennol. Mae orthoptwyr eisoes yn cael eu cyflogi gan fyrddau iechyd ac felly ni fydd angen i fyrddau iechyd wneud dim ond cytuno ar lwybr i'r gwasanaeth gyfeirio plant at orthoptwyr.

39. Mae'r posibilrwydd o gael caniatâd tybiedig ar gyfer y gwasanaeth yn un anodd ac edrychir i mewn i hyn fel rhan o gytuno ar y model gwasanaeth.

40. Caiff mater gofynion iaith Gymraeg y plant ei ystyried yn llawn fel rhan o gytuno a gweithredu'r model, gan weithio gyda'r gwasanaeth a'r defnyddwyr.

**Ymgyngoreion**

| | |
|---|---|
| 1 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| 3 | Orthopteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro |
| 4 | Ysgol Optometreg Prifysgol Caerdydd |
| 5 | Brian Stapley |
| 6 | Jan Perry |
| 7 | Y Canol |
| 8 | Ysgol Maes Hyfryd |
| 9 | Cŵn Tywys Cymru |
| 10 | Jill Bonney |
| 11 | Pwyllgor Optometreg Cymru |
| 12 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| 13 | SNAP |
| 14 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 15 | RNIB Cymru |
| 16 | SeeAbility |
| 17 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 18 | Y Coleg Nyrsio Brenhinol |
| 19 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 20 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| 21 | UCAC - Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| 22 | Pwyllgor Ymgynghorol Therapïau Cymru |
| 23 | Golwg Cymru |
| 24 | SENSE Cymru |
| 25 | Pwyllgor Ymgynghorol Orthopteg Cymru Gyfan a Rhwydwaith Cymru o Gymdeithas Orthoptig Prydain ac Iwerddon |
| 26 | Optometreg Cymru |
| 27 | Dyfodol yr Iaith |
| 28 | Comisiynydd y Gymraeg |
| 29 | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 31 | Coleg yr Optometryddion |
| 32 | Bwrdd Iechyd Cwm Taf |
| 33 | GOC – Y Cyngor Optegol Cyffredinol |
| 34 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ychwanegol |
| 35 | Galw Golwg |
| 36 | Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru |